Coleg Gwent




# CYNLLUN STRATEGOL
## 2026-2030

# CYNNWYS


03 Croeso

04 Ynglŷn â Coleg Gwent

06 Gweledigaeth a Phwrpas

06 Gwerthoedd ac ymddygiadau craidd

06 Uchelgeisiau strategol

07 Blaenoriaethau strategol




# CROESO

Rydym yn falch o gyhoeddi Cynllun Strategol Coleg Gwent ar gyfer 2026-2030: dyma fframwaith uchelgeisiol a blaengar sydd yn gosod ein gweledigaeth o ran newid bywydau drwy ddysgu.

Mae'r cynllun hwn yn brawf o'n hymrwymiad i ddarparu profiad eithriadol i'n holl ddysgwyr. Rydym ni am eu cefnogi wrth iddynt fynd ar drywydd eu cymwysterau a symud ymlaen i gyflogaeth, astudiaeth bellach, prentisiaethau neu ddatblygiad personol.

Rydym yn cydnabod yr heriau sydd yn wynebu ein rhanbarth, a dathlwn amrywiaeth y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Trwy'r cynllun hwn, anelwn at ysgogi newid cadarnhaol, gan gefnogi dysgwyr o gefndiroedd amrywiol i lwyddo a chyfrannu mewn modd ystyrlon i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth.

Bydd y blynyddoedd nesaf yn llawn heriau a chyfleoedd, ac rydym wedi mewnosod cynaliadwyedd, tegwch a meddwl hirdymor yn ein cynlluniau. Mae ein cyfeiriad strategol bellach yn cydymffurfio â Gweledigaeth ar gyfer addysg bellach Llywodraeth Cymru, cynllun strategol Medr ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rydym ni dal i fod yn ymrwymedig i gynnal cyfeiriad strategol ehangach ein sector, sy'n galw am ddarpariaeth gydweithredol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

Rydym yn ymrwymedig i weithio'n gydweithredol â'n staff a phartneriaid cymdeithasol, ac rydym yn falch o'n partneriaethau cryf â chyflogwyr, ysgolion, prifysgolion, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol. Mae'r perthnasoedd hyn yn golygu ein bod wedi ein lleoli wrth wraidd ein cymunedau, gan ein galluogi i ddarparu addysg berthnasol ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

Mae Coleg Gwent yn falch o lunio dyfodol addysg yn Ne-ddwyrain Cymru, ac rydym yn cydnabod nad oes modd i ni fodloni ein huchelgeisiau ar ein pen ein hunain. Mae angen mewnwelediad, egni a chymorth gan ein staff, dysgwyr a chymunedau ehangach, a chyda hynny mewn cof y crëwyd y Cynllun Strategol hwn.

Rydym yn awyddus i'w roi ar waith.



**Sue Ball**
Cadeirydd y Gorfforaeth



**Nicola Gamlin**
Pennaeth/Prif

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# YNGLŶN Â COLEG GWENT

Un o'r colegau addysg bellach gorau yng Nghymru yw Coleg Gwent, sydd yn gwasanaethu cymunedau amrywiol De-ddwyrain Cymru. Rydym yn cynnig cwricwlwm amrywiol a chynhwysol a gynlluniwyd i wireddu potensial myfyrwyr a sbarduno eu huchelgais. Mae gan y coleg bum campws bywiog:



**Campws Brynbuga**




**Campws Dinas Casnewydd**




**Campws Crosskeys**



**Parth Dysgu Blaenau Gwent**



**Parth Dysgu Torfaen**

Hefyd, mae gennym ni ein Canolfan Peirianneg Gwerth Uchel (High Value Engineering - HiVE).

Mae pob campws yn cynnig amgylched croesawgar a chynhwysol gyda chyfleusterau modern a gynlluniwyd i gefnogi ystod eang o anghenion dysgu. O labordai gwyddonol ac ystafelloedd digidol o'r radd flaenaf i stiwdios creadigol a salonau, mae ein campysau yn meddu ar yr offer i allu cynnig profiad dysgu ardderchog.

Mae Coleg Gwent yn darparu cwricwlwm amrywiol a hyblyg sydd yn cynnwys:

- Tystysgrifau Safon Uwch
- Cymwysterau galwedigaethol
- Prentisiaethau
- Cyrsiau Addysg Uwch
- Dysgu i oedolion a dysgu cymunedol
- Hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y cyflogwr

Mae'r ddarpariaeth amrywiol hon yn sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at y llwybr priodol i fodloni eu huchelgeisiau, boed hynny'n paratoi at astudio yn y brifysgol, yn ymuno â'r gweithlu, yn ailhyfforddi neu'n uwchsgilio.

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu set sgiliau eang i ddysgwyr er budd eu cynnydd. Gweithiwn yn agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu iaith a diwylliant Cymru drwy ein cwricwlwm, gan gyfranogi i fodloni nodau strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Canolbwyntiwn ar sgiliau cyflogadwyedd, llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, gan sicrhau bod modd i ddysgwyr ennill cyfleoedd gyrfa a chyfranogi mewn modd hyderus a chadarnhaol i economi ffyniannus y wlad.

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

## EIN DULL

**Pwysigrwydd ein gweithlu**
Gwyddwn fod darparu profiad dysgu ardderchog yn dibynnu ar ymrwymiad ein staff. Mae pob aelod staff yn chwarae rôl hanfodol wrth gynnal ein pwrpas a gwireddu ein gweledigaeth. Mae cydnabod cyfranogiad ystyrlon ein staff i wella profiad y dysgwr wrth wraidd ein twf a gwelliant parhaus.

I gefnogi hyn, rydym yn ymrwymedig i fuddsoddi yn natblygiad proffesiynol, dathlu cyflawniadau, a blaenoriaethu llesiant staff, gan sicrhau bod ein timau wedi'u paratoi a'u grymuso i ddarparu profiad o'r ansawdd uchaf posib i'n dysgwyr. Mae gennym ni ddisgwyliadau uchel, a chredwn mewn gweithio gyda'n gilydd i weithredu fel modelau rôl eithriadol. Fel sail i hyn, rydym yn ymrwymedig i gydweithio â'n hundebau ar ffurf partneriaeth gymdeithasol.

**Gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr**
Mae canolbwyntio ar y dysgwr wrth wraidd ein strategaeth. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel, cymorth personol ac amgylcheddau dysgu cynhwysol i ganiatáu i bob unigolyn ffynnu. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau craidd, gan gynnwys llythrennedd, yr iaith Gymraeg, rhifedd, cymhwysedd digidol a chyflogadwyedd, gan gydnabod bod y rhain yn hanfodol o ran magu hyder a chynnal cynnydd.

Rydym yn falch o hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru ar draws ein cwricwlwm a blaenoriaethau. Yn unol â'r strategaeth Cymraeg 2050, byddwn yn parhau i gynyddu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg ac ymgysylltu â threftadaeth Gymreig, gan sicrhau y caiff dwyieithrwydd ei ystyried fel cryfder ac ased.

**Cynhwysiant a phartneriaeth**
Mae Coleg Gwent yn ymrwymedig o feithrin diwylliant o gynhwysiant ble mae pob dysgwr yn cael y gefnogaeth i fodloni ei nodau a ble mae pob aelod staff yn teimlo fel ei fod yn cael ei barchu a'i werthfawrogi. Rydym yn dathlu'r cyfoethogrwydd y mae amrywiaeth yn dod i gymuned y coleg, ac awn ati i hyrwyddo tegwch, cynhwysiant a synnwyr cryf o berthyn ym mhob agwedd ar fywyd yn y coleg. Trwy ein partneriaethau, rydym yn darparu gwasanaethau cefnogaeth hollgynhwysol sy'n ymateb mewn modd effeithiol i anghenion amrywiol ein dysgwyr.

**Buddsoddi yn ein dyfodol**
Mae ein gwytnwch ariannol yn ein galluogi ni i fuddsoddi yng nghyfleusterau ac adnoddau rhagorol, ac rydym wrthi'n cynllunio cyfres o brosiectau uchelgeisiol ar gyfer yr ystadau dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y datblygiadau hyn yn trawsnewid ein hamgylcheddau dysgu, gan gefnogi addysgu arloesol a gwell hygyrchedd a chan adlewyrchu ei hymrwymiad i gynaliadwyedd a chynhwysiant.

Rydym yn cydnabod ein bod yn gweithredu mewn amgylchedd heriol o ran arian. Mae pwysau ariannol yn gofyn i ni fod yn bwyllog, yn effeithlon ac yn greadigol. Mae'r cynllun hwn yn arddangos sut y byddwn yn cynyddu ymgysylltiad i'r eithaf, cryfhau partneriaethau, a sicrhau bod pob buddsoddiad yn darparu gwerth i bawb.



## EIN GWELEDIGAETH

Newid bywydau drwy ddysgu.

## EIN PWRPAS


Gweithio gyda'n gilydd i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n fywiog, uchelgeisiol a chynhwysol fel y gall dysgwyr lwyddo a gwireddu eu llawn botensial.

## EIN GWERTHOEDD AC YMDDYGIADAU

- Y dysgwyr sy'n cael blaenoriaeth bob tro
- Parch i bawb
- Wedi ein gyrru gan ddatrysiadau
- Gweithredu â gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i greu amgylchedd ble mae ymddygiad rhagorol sydd wedi'i feithrin drwy berthnasoedd cadarnhaol wrth wraidd dysgu cynhyrchiol. Rhaid i ymddygiad cadarnhaol gael ei addysgu, modelu, disgwyl, a'i ganmol.

I gefnogi hyn, mae gennym ni dri disgwyliad syml i staff a dysgwyr sydd yn cysylltu ein gwerthoedd: **Byddwch yn Barod. Byddwch yn Barchus. Byddwch yn Ddiogel.**






## EIN HUCHELGEISIAU STRATEGOL

**Ein dysgwyr**
Cyflwyno addysg ysbrydoledig ac arloesol o ansawdd uchel.

**Ein gweithlu**
Gweithredu fel lleoliad uchelgeisiol a chefnogol i weithio ynddo, sydd ag enw da am ein hethos cynhwysol ac uchelgeisiol.

**Ein cyllid ac adnoddau**
Bod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol, gan fod yn barod i gyflwyno addysg o'r ansawdd uchaf.

**Ein rhanddeiliaid**
Gweithio gyda, ac ar gyfer, ein cymunedau.

# EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL

**Cyflwyno ein huchelgeisiau**

Mae yna ddau edefyn sydd yn ysbrydoli ac yn llywio popeth a wnawn yn ein Cynllun Strategol: ymrwymiad angerddol i iaith a diwylliant Cymru, ac ymroddiad diysgog i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r egwyddorion tywys hyn yn sail i'r blaenoriaethau strategol canlynol:

1. Byddwn yn meithrin tîm sy'n teimlo'n gyffrous am gyfeiriad y coleg, sy'n ymwybodol y cânt eu gwerthfawrogi'n wirioneddol, ac sydd â digonedd o gyfleoedd i dyfu drwy hyfforddiant a datblygiad rhagorol; byddant yn ffynnu wrth eu gwaith, gan fod wrth eu bodd ag ef, a helpu i greu gweithle hapus sy'n perfformio'n uchel.

2. Byddwn yn grymuso ein gweithlu i gyflawni lefel sylfaenol o ran sgiliau digidol, gan fewnosod dulliau mwy clyfar o weithio a gyrru'r arloesedd a fydd yn trawsnewid profiad y dysgwr.

3. Byddwn yn gosod cefnogaeth a chynnydd dysgwyr wrth wraidd popeth a wnawn, gan sicrhau bod pawb yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn ddiogel, a bod modd iddynt lwyddo. Byddwn yn helpu dysgwyr Mynediad a Lefelau 1 a 2 i fagu sgiliau a chadw i ddysgu a gwneud cynnydd gyda ni, gan herio dysgwyr Lefel 3 i wireddu eu llawn botensial.

4. Byddwn yn parhau i gynyddu cyfranogiad yn Addysg Uwch, gan gryfhau ein cynnig presennol wrth ehangu'r meysydd â blaenoriaeth allweddol, sef Peirianneg, Gofal Iechyd, a'r Celfyddydau Creadigol. Trwy wella hygyrchedd a sbarduno dyheadau, byddwn yn helpu rhagor o bobl i wireddu eu potensial.

5. Byddwn yn darparu Prentisiaethau o ansawdd uchel a fydd yn helpu dysgwyr i ffynnu a chyflogwyr i dyfu. Byddwn yn datblygu ein cryfderau ymhellach yn y meysydd Adeiladu, Peirianneg ac Arlwyo, wrth agor drysau newydd i Nyrsio Milfeddygol a Chyfrifeg.

6. Byddwn yn gwireddu ein huchelgais ar gyfer cymuned Casnewydd drwy sefydlu Ardal Wybodaeth Casnewydd yn ogystal ag ailddatblygu Campws Crosskeys er mwyn creu amgylcheddau dysgu bywiog ble mae pawb yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu parchu a'u cefnogi, a ble mae pob dysgwr wedi'i rymuso i ffynnu.

7. Byddwn yn cynyddu incwm gan leihau costau fel y gallwn ail-fuddsoddi yn yr hyn sydd pwyaf pwysig: ein dysgwyr, ein gweithlu, a'r adnoddau sy'n eu helpu i lwyddo.

8. Byddwn yn falch o sefydlu partneriaethau â rhanddeiliaid sydd wir yn rhannu ein hymrwymiad i wella deilliannau dysgwyr a darparu manteision sylweddol i ardal Gwent.



# GWERTHUSO EIN HEFFAITH

Byddwn yn monitro ein cynnydd gan ddefnyddio'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol canlynol erbyn 2030:

| | |
|---|---|
| ≥ 80% | **Mae o leiaf 8 allan o 10 o'n staff yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, sef cynnydd o 6.6 ers yr arolwg diwethaf.** |
| ≥ 98% | **Bydd o leiaf 98% o'n dysgwyr yn adrodd eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y coleg.** |
| ≥ 92% | **Bydd presenoldeb dysgwyr dros 92%, sef cynnydd o 6%.** |
| ≥ 95% | **Bydd boddhad dysgwyr dros 95% mewn arolygon ar foddhad dysgwyr, sef cynnydd o 5%.** |
| ≥ 93% | **Bydd cyfraddau cadw dysgwyr dros 93%, sy'n uwch na'r ffigur diwethaf, sef 87%.** |
| ≥ 94% | **Bydd cyfraddau ennill cymwysterau yn cynyddu gan o leiaf 1% i 94%.** |
| ≥ 6% | **Bydd ein gwarged arian parod ar gyfer ail-fuddsoddi o leiaf 6%, sy'n uwch na'r ffigur diwethaf, sef 3%.** |



Coleg Gwent